EBRILL A MAI 2026

YSGOL DYFFRYN DULAS

# LLEISIAU DYFFRYN DULAS

https://www.ysgolcorrisapennal.cymru/





## GWERSI BEICIO

Roedd plant blwyddyn 5 a 6 wedi dod a'u beics i'r ysgol er mwyn dysgu sgiliau beicio lefel 1 gyda Nici a Gwyn. Roedden ni'n ymarfer sgiliau stopio yn ddiogel a dysgu arwyddo troi i'r dde a'r chwith ar yr iard yn gyntaf. Yna, aethon ni allan o giatiau'r ysgol i lawr i Maes y Llan i gael ymarfer y sgiliau ar y ffordd fawr. Rydym yn edrych ymlaen i gael nhw'n nol i wneud lefel dau yn fuan. Mae dysgu reidio beic ar y ffordd yn ddiogel yn sgil pwysig iawn.

Ysgrifennwyd gan Marc Cullier Milner a Rhodri Summerfield Blwyddyn 5

## CELF A CHREFFT YR URDD


Llongyfarchiadau mawr i'r holl ddisgyblion a fu'n cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd yn ddiweddar. Dyma ganlyniadau Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd a gyhaliwyd yn Neuadd Rhydymain ddiwedd mis Ebrill.

Llun 2D Bl.2 ac iau – 2il Evie Eyles

Creadigol 2D Blwyddyn 3 a 4 – 3ydd Elsie Eyles

Addurno ar Ffabrig Blwyddyn 5 a 6 – 1af Talitiu Francois

Addurno ar Ffabrig Blwyddyn 5 a 6 – 2il Myrtle Joble




# EISTEDDFOD YR URDD

EISTEDDFOD YR URDD

Llongyfarchiadau i Anya ac Elsie a gystadlodd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Fon wythnos hanner tymor. Bu Anya yn chwarae'r gitar a Elsie yn llefaru. Nid oedd llwyddiant y tro hwn, ond roedd y ddwy wedi mwynhau'r profiad o berfformio ar y llwyfan ac wedi gwneud yn arbennig o dda i gyrraedd yr Eisteddfod Genedlaethol. Rydym yn hynod falch ohonoch.
Fe wnaethoch gynrychioli'r Ffederasiwn a Meirionnydd yn arbennig - da iawn Anya ac Elsie.






# PARTI PENBLWYDD ATTENBOROUGH 100 OED




Cafwyd parti pen-penblwydd gwych i ddathlu un o gewri byd natur yn 100 oed ar y 10ed o Fai ar dir yr ysgol. Mae Sir David Attenborough yn wyneb a llais cyfarwydd i ni ar ein sgrîn ers blynyddoedd yn ein dysgu am ryfeddodau ein planed. Cafodd Poppy Dent, un o rieni ysgol Dyffryn Dulas syniad i gael prynhawn o weithgareddau i ddathlu'r gwr arbennig hwn sydd wedi ein addysgu ers degawdau bellach. Cafwyd prynhawn bendigedig llawn gweithgareddau gwych. Daeth Tess 'Miss Popularitiy' i wneud sioe falwnau a dysgu'r plant sut i wneud gwahanol greaduriaid gyda balwnau, creu masgiau o amrywiol anifeiliaid, cornel chwilota am ffosiliau, cael rhoi anwes i fulod Dyfi Donkeys a helfa creaduriaid o amgylch tir yr ysgol. Ar ben hyn i gyd, roedd cacen penblwydd mwnci wedi'i wneud yn arbennig gan 'Cacennau Jules'; mae pob parti angen cacen wrth sgwrs! Llwyddwyd i godi bron i £400 o bunnoedd tuag at Ffrindiau'r ysgol. Diolch i bawb a ddaeth i ddathlu gyda ni, hefyd i'r rai a helpodd ar y diwrnod ac yn enwedig i Poppy am ei weledigaeth i gael diwrnod i werthfawrogi a diolch i un sydd wedi dysgu gymaint i ni, a sydd hefyd yn parhau i'n arwain i barchu a gofalu am ein planed.











EBRILL A MAI 2026

# YSGOL DYFFRYN DULAS

## GWEITHDAI DWR CYMRU



Daeth Catrin atom i gynnal gwasanaeth a gweithdy gyda Blwyddyn 2-6 Bore Dydd Iau, 7fed o Fai. Mae Catrin yn gweithio i Dwr Cymru a cawsom wasanaeth addysgiadol iawn i gychwyn yn trafod sut rydym yn defnyddio dwr, y broses dwr glan a'r broses dwr gwastraff ac yna y Gylchred Ddwr. Y rhan gorau oedd y sialens cyflenwad dwr. Cawsom adeiladu rhwydwaith i ddarparu dwr i'r dref Roedd angen cyfrifo faint oedd rhwydwaith pob grwp yn ei gostio a cawsom gylllid o £55,000. Cawsom llawer o hwyl ar y diwedd yn profi'r rhwydwaith gan wneud yn siwr bod pawb yn derbyn cyflenwad dwr a gwneud yn siwr bod y pibellau I gyd wedi eu cysylltu neu byddai llanast mawr ar y bwrdd yn y dosbarth.



## GWEITHDY DIGIDOL

Diolch i Mr Tomi Rowlands am ddod atom un bore i gynnal gweithdy codio efo Lego Education a micro-bit.

Rydym yn codi arian i brynu rhagor o bocsus Lego Spike ar gyfer gweithgareddau codio



## CLWB PEL DROED AR OL YSGOL

CLWB PÊLDROED Y BALA TOWN F.C.
BALA

Mae nifer o ddisgyblion wedi bod yn aros ar ol ysgol ar Nos Fawrth yn ddiweddar ar gyfer Clwb Pel Droed. Diolch i Archie o Glwb Pel-droed y Bala am ddod atom i gynnal y sesiynau.

Rydym yn gobeithio bydd rhagor o sesiynau ar ol gwyliau Hanner Tymor.

# LLWYDDIANT CELF





Llongyfarchiadau mawr i Leia Jones ar ei llwyddiant diweddar yn RDA National Championships & Competitions. Mae Leia yn cael sesiynau marchogaeth yn wythnosol fel rhan o'i chynllun gwaith yn yr ysgol a daeth i'r brig yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft Gogledd Cymru a phob lwc iddi yn y rownd derfynol.

# GWYL GYHOEDDI EISTEDDFOD 2027

Aeth criw o deuluoedd Ysgol Dyffryn Dulas draw i Lanidloes ddydd Sadwrn Mai 9ed i orymdeithio yng ngwyl Gyhoeddi Eisteddfod Maldwyn Meirionnydd. Roedd pawb wrth eu bodd yn cynrychioli Corris a chwifio'r baner yn uchel wrth gerdded drwy'r dref. Rydym i gyd yn edrych ymlaen yn fawr iawn i gael yr Eisteddfod ar ein stepen drws y flwyddyn nesaf!





## GORNEST LYFRAU

Mae disgyblion hynaf yr ysgol wedi mwynhau darllen llyfr 'Macs Sion' yn ddiweddar. Eleni, cymeroedd grwp o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 ran yn y gystadleuaeth Gornest Lyfrau oedd wedi ei drefnu gan Slarter Iaith Gwynedd. Nid oedd Ysgol Dyffryn yn llwyddiannus eleni ond roedd y disgyblion wedi mwynhau cymryd rhan a chreu'r animeiddiad fel rhan o'r gystadleuaeth.




## ADDYSG GORFFOROL BLWYDDYN 6

Diolch i Ysgol Uwchradd Tywyn am drefnu'r sesiynau Addysg Gorfforol ar foreau Dydd Gwener yn ddiweddar ar gyfer Blwyddyn 6. Mae hyn yn gyfle da i ddisgyblion Blwyddyn 6 gwrdd a'r staff a'r disgyblion y dalgylch.

## BAG2SCHOOL

Diolch am ddod a'r bagiau dillad ar gyfer ein casgliad Bag2School. Llwyddwyd i gasglu 156kg o ddillad. Bydd yr ysgol yn derbyn siec o tua £48 yn fuan.

